



Sut y gall Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol Bae Abertawe helpu?

Mae Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol Bae Abertawe yn un o bedwar tîm yng Nghymru sy'n gweithio i helpu i sicrhau bod cynigion am gyllid Ewropeaidd yn bodloni cyfleoedd a buddsoddiadau'r dyfodol ar lefelau rhanbarthol

Rydym yn gweithio ar draws siroedd Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro ac Abertawe, ac ar draws yr holl sectorau yn y rhanbarth er mwyn sicrhau bod buddsoddiadau sy'n cael eu hariannu gan yr UE yn cael cyfranogiad effeithiol ac yn cael llwyddiant.

Mae gwaith Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol Bae Abertawe yn cefnogi'r rhanbarth i gyflawni ei **strategaeth adfywio economaidd** er mwyn gwella rhagolygon ein cymunedau, ein busnesau a'n heconomi.

Os ydych yn ystyried gwneud cais am gyllid gan yr UE neu eich bod eisoes yn gweithredu prosiect gan yr UE, mae croeso ichi gysylltu â ni i gael arweiniad am y modd y gallai eich prosiect gefnogi blaenoriaethau rhanbarthol, gan wneud cysylltiadau â phrosiectau eraill ac elwa ar astudiaethau achos ac esiamplau o arferion gorau.

Y Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol yn cynnal Gweithdy Rhanbarthol

Trefnodd Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol Bae Abertawe weithdy gwybodaeth ar gyfer Grŵp Cyflogadwyedd Bae Abertawe, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Awdurdodau Lleol, sefydliadau addysg Uwch ac addysg Bellach ac sefydliadau amrywiol eraill sydd â diddordeb yn yr agenda gyflogadwyedd.

Rhoddodd y gweithdy y wybodaeth ddiweddaraf am y Rhaglen Cyflogadwyedd Cymru Gyfan (Cymru'n Gweithio) gan Lywodraeth Cymru, a fydd yn darparu dull a ddefnyddir ar draws Llywodraeth Cymru o ymdrin â chyflogadwyedd gan gynnwys datblygu gweithgareddau newydd ac edrych ar y posibilrwydd o gysoni gweithgareddau cyflogadwyedd rhanbarthol presennol.

Hefyd derbyniodd aelodau newydd o'r grŵp wybodaeth am y Rhaglen Gweithio ac lechyd a ddarperir gan Remploi Cymru, a fydd yn rhoi cymorth yn y gymuned wedi'i deilwra'n benodol i bobl sydd ag anabledd neu sydd â chyflyrau iechyd, ynghyd â phobl sy'n ddi-waith yn y tymor hir, a hynny er mwyn eu helpu i ddatblygu eu sgiliau a dechrau gweithio. Bydd y rhaglen yn derbyn atgyfeiriadau tan 1 Rhagfyr 2017.



Investing in people
European Social Fund

I ddathlu 60 mlynedd o Gronfa Gymdeithasol Ewrop, lansiwyd WEFO gystadleuaeth i gydnabod llwyddiant unigolion y mae eu bywydau wedi eu gweddnewid, diolch i gyllid yr UE yng Nghymru.

Cyhoeddwyd enwau'r enillwyr gan yr Ysgrifennydd Cyllid, Mark Drakeford, mewn seremoni wobrwyo ar 30 Tachwedd.

Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit

Mae'r diweddaraf mewn cyfres o bapurau **Diogelu'r Dyfodol Cymru** sydd yn pennu gweledigaeth Llywodraeth Cymru i Gymru ar ôl i ni adael yr UE wedi cael ei lansio.

Cyhoeddi'r papur polisi **Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit** yw'r cam cyntaf yn y broses o lunio ffordd newydd o edrych ar fuddsoddi a datblygu economaidd rhanbarthol yng Nghymru.

Dadorchuddio y Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau Rhanbarthol i'r Rhanbarth



Ym mis Hydref cynhaliodd Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol De-orllewin a Chanolbarth Cymru y digwyddiad 'Ein Sgiliau, Ein Dyfodol: Mae Cydweithio'n Allweddol'. Daeth 140 o gynrychiolwyr i'r Village Hotel, Abertawe, lle cafodd y Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau Rhanbarthol ei lansio'n ffurfiol gan Julie James AC, y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth.

Cynigiai'r digwyddiad gyfle i ddiwydiant, darparwyr addysg, cyrff sector cyhoeddus a gwneuthurwyr polisi i glywed am y sialensiau a'r cyfleoedd mwyaf sylweddol i'r rhanbarth, gan adlewyrchu canfyddiadau Cynllun Sgiliau 2017.

Cyfrannodd ystod ragorol o siaradwyr i'r prynhawn llwyddiannus. I agor y digwyddiad estynnodd Paul Greenwood, Cadeirydd y Bartneriaeth, groeso a soniodd am yr hyn yr oedd y Bartneriaeth wedi'i gyflawni dros y flwyddyn ddiwethaf, yn cynnwys: dod yn bartneriaeth sy'n cael ei harwain gan gyflogwyr, creu 7 grŵp sector diwydiant, ymgysylltu â thros 300 o gyflogwyr a lefel uchel o ymgysylltu â dysgwyr. Anogwyd y busnesau a oedd yn bresennol i hyrwyddo pwysigrwydd ymgysylltu â'r bartneriaeth a chefnogi'r gwaith sy'n cael ei wneud. Rhoddwyd cyfle i'r cadeiryddion diwydiant a oedd yn bresennol i amlinellu'u blaenoriaethau unigol nhw fel y'u hamlinellwyd yn y Cynllun Sgiliau. Bydd y cadeiryddion hyn yn parhau i weithio ochr yn ochr â thîm y Bartneriaeth a'r bwrdd i fynd i'r afael â'r argymhellion sydd wedi'u gwneud ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Canolbwyntiodd siaradwyr y prynhawn ar sialensiau allweddol a amlygwyd yn y cynllun. Rhoddodd Dr Victoria Winckler gyflwyniad bywiog a diddorol ar Brexit a'r hyn y gallai'i olygu i'r rhanbarth. Cyflwynodd Eluned Morgan AC y cynllun newydd, 'Rural Wales Time to Meet the Challenge 2025', sy'n amlygu'r sialensiau neilltuol sy'n wynebu'r economi wledig a phwysigrwydd y cynllun yn y cyswllt hwnnw. Rhoddwyd cipolwg hefyd i'r cynrychiolwyr ar Fargen Ddinesig Bae Abertawe a fydd yn trawsnewid y rhanbarth. Yn siarad yn y digwyddiad, pwysleisiodd y Cyng Emlyn Dole, Arweinydd Cyngor Sir Caerfyrddin, mai'r Fargen Ddinesig yw'r buddsoddiad mwyaf i ddod i dde-orllewin Cymru a bod disgwyl iddi arwain at gynydd o £1.8biliwn yn Ngwerth Ychwanegol Gros y rhanbarth a chynhyrchu bron i 10,000 o swyddi newydd dros y 15 mlynedd nesaf. Hefyd, tynnwyd sylw yn y sgwrs at yr 11 prosiect yn y cynnig – un ohonynt yw'r fenter Sgiliau a Thalentau sy'n cael ei harwain gan y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol. Bydd y prosiect yn sicrhau bod gan y gweithlu presennol a gweithlu'r dyfodol y sgiliau angenrheidiol i wireddu cynigion y Fargen Ddinesig.

Roedd y brif araith gan y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth, Julie James AC, yn canolbwyntio ar bwysigrwydd prentisiaethau, sgiliau ar bob lefel a chydweithredu, a daeth â'i haraith i ben drwy lansio'n swyddogol Gynllun Cyflogaeth a Sgiliau Rhanbarthol 2017.

Roedd sefydliadau wrth law i gynnig cymorth ac arweiniad i'r cynrychiolwyr yn ystod yr egwyliau rhwydweithio, yn cynnwys: Busnes Cymru, Gyrfa Cymru, NTfW, Bargaen Ddinesig Dinas Rhanbarth Bae Abertawe, Sefydliad Bevan a Chwarae Teg. Rydym yn diolch i bawb a gyfrannodd at ddarparu digwyddiad llwyddiannus.

Am ragor o wybodaeth am y digwyddiad, lluniau, cyflwyniadau ac i weld y Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau, cliciwch [yma](#)

Cydweithio llwyddiannus rhwng diwydiant ac academia i ddatblygu technoleg pŵer tonnau sy'n lân, yn ddibynadwy ac yn fforddiadwy

Mae partneriaeth ASTUTE 2020, sef trefniant cydweithio rhwng nifer o Brifysgolion i ymateb i'r galw gan ddiwydiant, yn gweithio ar y cyd â'r diwydiant gweithgynhyrchu yng Nghymru i wreiddio technolegau uwch a chynaliadwy.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae tîm ASTUTE 2020 ym Mhrifysgol Abertawe, sydd cael cefnogaeth gan yr Undeb Ewropeaidd, wedi bod yn cydweithio â'r cwmni newydd llwyddiannus o Abertawe, Marine Power Systems Ltd. (MPS) ar eu technoleg pŵer tonnau glân, dibynadwy a fforddiadwy, WaveSub. Mae arbenigwyr technegol ASTUTE 2020 ac MPS wedi creu modelau cyfrifiadurol addas ac wedi cynnal dadansoddiad elfen gyfyngedig ar strwythur arnofyn y WaveSub. O ganlyniad i'r cydweithio hwn a buddsoddi pellach gan Lywodraeth Cymru, mae MPS bellach wedi cyrraedd carreg filltir bwysig ac wedi dadorchuddio prototeip Graddfa 1:4 o'r WaveSub ar 13 Hydref.

“Yn sgîl y sgiliau a'r cyfleusterau nodedig sydd ar gael trwy ASTUTE 2020 ar Gampws newydd y Bae, Prifysgol Abertawe, yn ogystal â'i athroniaeth o arloesedd a symud ymlaen, rydym yn gwbl sicr y bydd yr ymchwil sydd ar waith gan ASTUTE 2020 yn cadarnhau bod ein dyluniad ar gyfer arnofyn cipio pŵer yn gwbl addas at y diben.” Dr Gareth Stockman, Prif Swyddog Gweithredol, Marine Power Systems Ltd.

Mae trefniadau cydweithio gwirioneddol ASTUTE 2020 rhwng diwydiant ac academia yn golygu bod cwmnïau'n cael mynediad unigryw i'r canlynol:

- Arbenigwyr academiaidd o'r radd flaenaf ar draws partneriaeth Prifysgol
- Ymchwilwyr ac arbenigwyr technegol â chymwysterau uchel
- Y cyfleusterau ymchwil a'r offer arbrofi diweddaraf
- Systemau deallus, technegau lefel uwch a meddalwedd wedi'i theilwra at y diben

Gan arwain at sbarduno syniadau a hwyluso'r broses o fabwysiadu newid trwy ymchwil, datblygiad ac arloesedd.

Gall ASTUTE 2020 gefnogi cwmnïau gweithgynhyrchu ar draws amrywiaeth o sectorau, megis awyrodod, moduron, cynhyrchu ynni, olew a nwy, dyfeisiau meddygol, electroneg, bwydydd, ac ati, a rhoi hwb i dwf trwy gymhwyso technolegau peirianeg uwch i heriau gweithgynhyrchu, gan sbarduno ymchwil flaengar ac arloesedd. Mae trefniadau cydweithio ASTUTE 2020 yn ysbrydoli cwmnïau gweithgynhyrchu i wella a lliflinio eu prosesau gweithgynhyrchu, eu cynnyrch gweithgynhyrchu a'u cadwyn gyflenwi, gan greu nwyddau a gwasanaethau cynaliadwy, gwerth uwch, a'u cyflwyno i farchnad fyd-eang.

Mae prosiect ASTUTE 2020 yn cael ei ariannu'n rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop trwy Lywodraeth Cymru a'r Sefydliadau Addysg Uwch sy'n rhan ohono.

Cliciwch [yma](#) i gael rhagor o wybodaeth am ASTUTE 2020



Dyheadau uchel a gyflawnwyd trwy raglen Cymunedau dros Waith

Rhaglen wirfoddol yw Cymunedau dros Waith i helpu'r oedolion hynny sydd bellaf oddi wrth y farchnad lafur i ddod o hyd i waith.

Mae Kalumn yn 26 mlwydd oed ac fe gafodd ei gyfeirio'n gyntaf at y rhaglen C4W yn ystod ymarfer allgymorth drwy Gwalia, Landlord Cymdeithasol Cofrestredig. Roedd yn wynebu nifer o rwystrau a oedd yn ei atal rhag mynd i'r farchnad lafur. Tan yn ddiweddar roedd yn ddigartref ac mae hefyd yn gyn-droseddwr. Yn ogystal, mae wedi dioddef o nifer o broblemau iechyd meddwl, gan gynnwys gorbryder ac iselder. Pan gofrestrodd ar y rhaglen yn gyntaf ar 23/06/2016, doedd dim llawer o hyder gan Kalumn i fynd at ddarpar gyflogwyr oherwydd bod ganddo euogfarnau yn y gorffennol a chefnidir troseddol.

Ar ôl cwrdd â'r Mentor Cyflogaeth Oedolion, dywedodd Kalumn ei fod am weithio ym maes adeiladu a bod ganddo brofiad o osod brics, gwaith coed a phlastro. O ganlyniad, cafodd ei gofrestru ar gwrs Tystysgrif Iechyd a Diogelwch ym maes Adeiladu drwy ACT. Mynychodd y cwrs rhwng 27/06/16 a 30/06/16, gan wneud yn dda iawn. O ganlyniad i hyn, llwyddodd y Mentor Cyflogaeth Oedolion i gael cyfweiliad i Kalumn am bythefnos o brofiad gwaith gyda Lloyd a Gravell. Roedd yn llwyddiannus iawn yn ei gyfweiliad ac fe gafodd gynnig y profiad gwaith am bythefnos ar yr amod ei fod yn llwyddo yn ei brawf ac yn ennill y cymhwyster Tystysgrif Iechyd a Diogelwch ym maes Adeiladu.

Dechreuodd ei brofiad gwaith gyda Lloyd a Gravell ar 01/08/16 gan lwyddo i wneud argraff dda yn gyflym. Ar ôl cyfnod byr yn unig, cynigiodd Lloyd a Gravell gyfweiliad iddo am swydd gyflogedig. Aeth i'w gyfweiliad ar 13/08/16 a chael cynnig contract am swydd amser llawn gyda thâl am o leiaf 6 mis. Roedd hwn yn gyrhaeddiad enfawr i Kalumn, o ystyried nad oedd llawer o hyder ganddo a'i fod yn wynebu llawer o rwystrau pan gofrestrodd ar y rhaglen yn gyntaf. Gadawodd Kalumn C4W yn llwyddiannus ar 17/08/16.



Ers hynny, mae bywyd Kalumn wedi gwella'n aruthrol. Mae'n dal i weithio i Lloyd a Gravell ac mae e hyd yn oed wedi dewis cael gostyngiad mewn cyflog er mwyn gallu hyfforddi'n broffesiynol fel plastrwr. Llwyddodd i ddod o hyd i le i fyw, mae ganddo bartner ac fe wnaethon nhw groesawu eu bachgen bach newydd i'r byd ar 22 Tachwedd.

"Dydw i ddim yn gallu credu'r ffordd mae fy mywyd wedi newid," meddai Kalumn. "Doedd gen i ddim byd ac nawr mae gen i swydd, partner a mab. Mae'n anhygoel. Dydw i ddim yn gallu credu'r peth."

Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020

Caiff y rhaglen hon ei hariannu gan yr Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru o dan Gronfa Amaethyddiaeth Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig.

Mae'r cyfleoedd cyllid cynllun RDG canlynol bellach ar agor:

Cynllun Cydweithio i Gynllunio Coedwigaeth

Yn annog cynllunio ar gyfer creu coetir llydanddail a chonwydd a chyfrannu at gyflawni amcanion Rhaglen Monitro a Modelu'r Amgylchedd a Materion Gwledig (ERAMMP). Trwy roi help ariannol ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau fydd yn helpu i wireddu'r nod hwn, gan:

- reoli'n hadnoddau naturiol yn well
- cyfrannu at les ein cymunedau gwledig.

Amcan y Cynllun Cydweithio i Gynllunio Coedwigaeth yw cefnogi cynigion sy'n ceisio hwyluso, datblygu neu sefydlu trefniadau cydweithio a gweithgareddau newydd a helpu trefniadau cydweithio newydd posib i ddatblygu cynigion ar gyfer prosiectau.

Am fwy o wybodaeth cliciwch [yma](#)

Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio

Nod y cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio yw helpu i sicrhau bod pethau newydd yn digwydd. Bydd yn rhoi cymorth ar gyfer amrywiaeth eang o faterion ac ar gyfer pob agwedd ar brosiect. Bydd yn cynnig cymorth o'r camau cychwynnol hyd y cyfnod cyflwyno ac i'r cyfnod lledaenu a gwerthuso. Ni all y cynllun gefnogi gweithgareddau ar y cyd sydd eisoes yn mynd rhagddynt ond o dan y cynllun gellir rhoi cymorth i grŵp sydd eisoes yn bodoli i ymgymryd â phrosiect newydd ar y cyd.

Nod y cynllun yw cefnogi'r gwaith o ddatblygu cynhyrchion, arferion, prosesau a thechnolegau newydd yn y sectorau amaeth, bwyd a choedwigaeth

Am fwy o wybodaeth cliciwch [yma](#)

Y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig - Bwyd

Mae'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig - BWYD (RBISF) yn buddsoddi cyfalaf i helpu prosiectau sy'n dod â manteision clir a mesuradwy i'r diwydiant bwyd a diod yng Nghymru. Mae'r cynllun yn cael helpu cwmnïau prosesu a chynhyrchu bwyd a diod micro a bach, hen a newydd ledled Cymru.

Mae'n buddsoddi cyfalaf mewn gweithgareddau prosesu a chynhyrchu bwyd a diod nad yw'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd yn cael eu helpu.

Gall gynnig grant o hyd at werth 40% o gost prosiect buddsoddi, hyd at £50,000.

Am fwy o wybodaeth cliciwch [yma](#)

Darganfyddwch ragor am eich rhaglenni LEADER lleol

Cyllidir y rhaglen LEADER drwy'r Cynllun Datblygu Gwledig ar gyfer Cymru (2014-2020), a'i nod yw cael pobl, busnesau a chymunedau lleol sy'n ymwneud â chynnig atebion cynaliadwy ac arloesol i fynd i'r afael â rhai o'r heriau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol sy'n wynebu ardaloedd gwledig.

Un elfen allweddol o'r rhaglen LEADER yw arloesedd, sy'n galluogi cymunedau gwledig i dreialu syniadau newydd a ffyrdd newydd o weithio er budd yr economi gwledig. Mae'r math o weithgareddau y bydd y rhaglen LEADER yn eu cefnogi yn cynnwys:

- Prosiectau prawf - gweithgareddau ar raddfa fach sy'n gyfyngedig o ran amser ac sydd â'r bwriad o roi prawf ar gysyniad neu roi cynnig ar dechneg arloesol
- Astudiaethau dichonoldeb i wneud gwaith ymchwil er mwyn dod o hyd i atebion newydd i heriau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol sy'n wynebu ardaloedd gwledig
- Cyn-fasnacheiddio nwyddau a phrosesau newydd
- Cymorth hwyluso a mentora i sefydliadau, busnesau a grwpiau er mwyn helpu i ddatblygu eu sgiliau a'u harbenigedd

Rhaid i weithgareddau sy'n cael eu cefnogi gan LEADER fod yn gysylltiedig ag un o'r 5 thema ganlynol:

Ychwanegu gwerth at hunaniaeth leol ac adnoddau naturiol a diwylliannol;
Hwyluso datblygiad cyn-fasnachol, partneriaethau busnes a chadwyni cyflenwi byr;
Archwilio ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau lleol statudol;
Ynni adnewyddadwy ar lefel gymunedol;
Manteisio i'r eithaf ar dechnoleg ddigidol

Ewch i [wefan](#) Rhwydwaith Gwledig Cymru er mwyn cael golwg ar y math o brosiectau LEADER sy'n cael eu hariannu ledled Cymru.

Mae Grwpiau Gweithredu Lleol ledled y rhanbarth yn gweinyddu cyllid LEADER – os oes gennych syniad arloesol sy'n berthnasol i'r themâu uchod yr hoffech ei drafod, mae croeso ichi gysylltu â'ch tîm LEADER lleol:

Sir Benfro

Sir Gar

Abertawe

CnPT



Arwain Sir Benfro yn rhoi £32,063.00 ar gyfer prosiect LEAF

Mae Arwain Sir Benfro - y Grŵp Gweithredu Lleol ar gyfer Sir Benfro, a weinyddir gan PLANED - wedi darparu cyllid yn ddiweddar i Tir Coed. Caiff hyn ei gyllido drwy raglen LEADER, sy'n rhan o Raglen Datblygu Gwledig Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru 2014 - 2020, a gyllidir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru.



Nod Prosiect LEAF (Dysgu i Alluogi Cyflawniad a Boddhad) yw galluogi newidiadau sylfaenol a sylweddol i gael eu gwneud i fywydau pob cyfranogwr, a chynnig cyfleoedd i wneud cynnydd pwrpasol gan weithio gyda sgiliau a dyheadau'r unigolyn. Mae'r prosiect hwn yn rhoi'r grym i unigolion helpu eu hunain i ddod yn annibynnol.

Ymhlith y gwasanaethau y mae LEAF yn eu cynnig ar draws Sir Benfro y mae rhaglenni hyfforddiant dwys sy'n para

wythnos, diwrnodau gweithgareddau, cymorth mentora i leoliadau gwaith, mentora i hunan-gyflogaeth, llyfr gwaith Agored Cymru i'w ddatblygu a'i beilota, a dysgu traws-sirol drwy beilota partneriaethau gwahanol yn Sir Benfro, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin.

Drwy amgylchedd coetir a phrofiadau dysgu wedi'u teilwra i grwpiau penodol, rhoddir hwb i hunan-barch pobl a bydd unigolion yn ennill sgiliau ymarferol a throsglwyddadwy go iawn. Yn y pen draw, bydd cymdeithas yn gryfach yn sgil y camau hyn.

Bydd gwaith a wneir gan wirfoddolwyr yn gwella gwerth esthetig y dirwedd, yn bwysig i bobl ac yn gefnogol i fywyd gwylt, ac yn meithrin mwy o falchder cymunedol a mwynhad yn yr ardal leol.



Working with communities, delivering for Pembrokeshire



Cydweithio gyda chymunedau, cyflawni dros Sir Benfro

Erasmus+

Mae galwad cyllid Erasmus+ 2018 nawr ar agor

Mae €2.7 biliwn ar gael yn fyd-eang ar gyfer addysg, hyfforddiant, prosiectau ieuenctid a chwaraeon; mwy nag erioed o'r blaen.

I ddod o hyd i ddyddiadau cau, llawlyfr y rhaglen a rhagor o wybodaeth cliciwch [yma](#)

HORIZON 2020

Horizon 2020 yw'r rhaglen ymchwil ac arloesedd fwyaf erioed gan yr UE gyda bron i €80 biliwn o gyllid ar gael dros 7 mlynedd (2014 - 2020) yn ogystal â'r buddsoddiad preifat y bydd yr arian hwn yn ei ddenu. Mae'n addo mwy o lwyddiannau, canfyddiadau a datblygiadau arloesol drwy drosglwyddo syniadau gwych o'r labordy i'r farchnad.

Ar 27 Hydref 2017, cyflwynodd y Comisiwn Ewropeaidd y Rhaglen Waith derfynol ar gyfer Horizon 2020, sy'n cynnwys blynyddoedd cyllidebol 2018, 2019 a 2020 ac yn cynrychioli buddsoddiad o oddeutu €30 biliwn.

Am fwy o wybodaeth cliciwch [yma](#)

Ewrop Greadigol

Nod rhaglen Ewrop Greadigol yw cefnogi sector creadigol, diwylliannol a chlyweledol Ewrop.

Mae'r gwahanol gynlluniau cyllido yn annog cyfranogwyr yn y sector creadigol, diwylliannol a chlyweledol i weithredu ledled Ewrop er mwyn cyrraedd cynulleidfaoedd newydd a datblygu'r sgiliau sydd eu hangen yn yr oes ddigidol.

I gael rhagor o wybodaeth ac i agor galwadau, cliciwch [yma](#)

Cysylltwch a ni

Tim Ymgysylltu Rhanbarthol Dinas Bae Abertawe,
Business Resource Centre,
Parc Amanwy,
Ammanford.
SA18 3EP

01554 742473 / swanseabayret@sirgar.gov.uk

